# GWNEUD SŴN!

Dyna'r peth olaf y byddai athro neu athrawes cerddoriaeth yn galw canu offeryn cerdd! **Sain** sy'n cael ei gynhyrchu medden nhw! Ond yr hyn sy'n fy ngogleisio i ydy sain enw ambell offeryn cerdd fel zither, tabla, sitar neu gong.
A dyna i chi'r DIDJERIDU neu DIDGERIDOO enwog! Mae'r enw yma ar yr offeryn sy'n cael ei ddefnyddio yng ngherddoriaeth seremonïol a dawnsio'r aboriginiaid yn Awstralia wedi gwneud i bobl chwerthin erioed.
Mae'r enw, a gafodd ei fathu gan fewnfudwyr croenwyn, yn onomatopeig. Amrywia'r enw traddodiadol – e.e. yidaki a gumbark - o lwyth i lwyth ac o ardal i ardal.
Caiff y didjeridu ei chwarae trwy dechneg a elwir yn 'anadlu mewn cylch'. Mae'r gwefusau a'r dafod yn cael eu symud i greu gwahanol synau a chaiff y llais ei ddefnyddio hefyd.

Yn draddodiadol byddai'r didjeridu yn cael ei chwarae gan ddynion yn ystod seremonïau derbyn yn eu harddegau ac ni châi merched a bechgyn oedd ddim wedi cael eu derbyn ei chwarae na hyd yn oed ei weld. Pe byddent yn gafael ynddo, byddai'n cael ei dynnu oddi arnynt a byddent yn cael eu taro ar eu pen ag ef! Y gred oedd, pe bai'r rhai oedd ddim wedi cael eu derbyn yn ei chwarae y gallent, yn ddamweiniol, agor drysau Amser Breuddwyd ac aflonyddu ar yr ysbrydion sy'n byw yno a chreu trychinebau fel llifogydd a daeargrynfeydd!
Mae'r hen gredoau hyn wedi cael eu hanghofio ers i'r offeryn ddod yn boblogaidd ledled y byd.
Caiff ei wneud o fonyn coeden wag. Ond, yn anffodus, mae'r diddordeb byd-eang yn yr offeryn wedi arwain at dorri llawer o goed i gynhyrchu didjeridus i ymwelwyr ac i'w gwerthu dramor. Cymer y coed amser maith i dyfu, ac i geisio arbed coedwigoedd mae llawer o chwaraewyr yn gwneud offerynnau o fambŵ, cactws neu beipiau ABS.

Dyna'r CONGA wedyn, sy'n creu awyrgylch Garibïaidd i unrhyw dôn ac yn gorfodi pawb i ddawnsio! Drwm cul a hir gydag un pen iddo ydyw a daw yn wreiddiol o Affrica. Ei enw yno oedd 'tumbadora'. Byddai'n cael ei wneud o foncyffion gwag. Pan ddaeth i Cuba a chael ei alw yn 'conga', cafodd ei wneud ar siâp casgen. Ar y cychwyn, byddai'n cael ei wneud o gasgenni. Caiff ei ddefnyddio mewn cerddoriaeth grefyddol ac erbyn hyn mae'n gyffredin iawn mewn pob math o ffurfiau o gerddoriaeth Americanaidd. 'Conguero' ydy enw'r person sy'n canu'r offeryn.



Enw arall sy'n fy nenu ydy BALALAIKA o Rwsia. Mae'n debyg i ffidil ond bod ganddo gorff trionglog a thri thant.



Gallwn fynd ymlaen ac ymlaen am oriau, ond gwell i mi roi'r gorau iddi! Enwau pa offerynnau sy'n eich gogleisio chi?